Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

EAS

GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding


PARTNERIAETH

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Croeso

Croeso i'n Hyfforddiant Cynefino rhithwir. Bydd y cyfarfod yn dechrau cyn bo hir. Tra'ch bod yn aros, beth am ymgyfarwyddo â Teams...




Gwnewch yn siŵr bod eich meicroffon wedi'i dewi – bydd hyn yn ein galluogi ni i gael y sain o'r ansawdd gorau i bawb sy'n cymryd rhan.

**Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cofrestru eich presenoldeb drwy ddilyn y ddolen yma -**
ANG Cynnig Dysgu Professiynol Cenedlaethol 2024/2025 National PL offer for NQTs (office.com)

ANG Cynnig Dysgu Professiynol Canedlaethol 2024/2025 National PL offer for NQTs

Tîm Cynefino Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) Consortia Addysg Cymru

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

EAS

GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

PARTNERIAETH

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Addysgeg: Cynnwys Partneriaid mewn Dysgu

## Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ANG

## Sesiwn 5

# Nodau'r Sesiwn

Cynnwys partneriaid mewn dysgu:

- Deall beth mae cynnwys partneriaid mewn dysgu yn ei olygu
- Ystyried pam mae meithrin perthynas gadarnhaol â rhieni a gofalwyr yn hanfodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr dan anfantais
- Deall sut mae goresgyn rhwystrau sy'n atal rhieni rhag ymgysylltu a nodi strategaethau y gellir eu defnyddio i ymgysylltu â rhieni'n effeithiol, gan gynnwys nosweithiau rhieni ac adroddiadau
- Ystyried sut mae Cynorthwywyr Addysgu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi pob dysgwr

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

EAS


GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

PARTNERIAETH

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth



# Cynnwys Partneriaid mewn Dysgu

## Cynnwys partneriaid mewn dysgu

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Rhoddir cymorth cadarn i rieni a gofalwyr helpu eu plant i ddatblygu o ran y pedwar diben. Mae cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael eu hannog i gefnogi'r pedwar diben ac, yn enwedig, yr ymgyrch i feithrin profiad dilys fel rhan naturiol o ddysgu.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Gwneir ymdrech barhaus i gynnwys rhieni, gofalwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill mewn datblygu dysgwyr o ran pedwar diben y cwricwlwm.

**Disgrifydd SAC:**
Deall pwysigrwydd cynnwys rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill mewn ffordd gadarnhaol ac achub ar gyfleoedd i arsylwi ar brosesau, a'u gwerthuso.

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

EAS

GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

PARTNERIAETH

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Cofnodi ac Adrodd

## Cofnodi ac adrodd

**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
Mae gwaith dadansoddi data a thystiolaeth yn ei gwneud yn bosibl i feithrin dealltwriaeth a gwneud penderfyniadau am ddarpariaeth. Mae cofnodion ac adroddiadau'n galluogi grwpiau diddordeb eraill i nodi materion yn effeithlon a gweithredu yn unol â hynny.

**Disgrifydd ymsefydlu:**
Mae cofnodion ac adroddiadau'n disgrifio'n gywir y cynnydd a wnaed gan ddysgwyr, yn nodi anghenion dysgu allweddol ac yn amlinellu camau nesaf pwysig.

**Disgrifydd SAC:**
Mae'r athro'n cynhyrchu cofnodion ac adroddiadau priodol, amserol a chywir ac mae'n rhoi adborth i helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r dysgu, a gwella'r profiad dysgu.

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

EAS

GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

PARTNERIAETH

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Beth yw ystyr ymgysylltiad rhieni?

‘unrhyw beth lle mae rhiant yn teimlo cysylltiad â’r ysgol ac yn gysylltiedig â llwyddiant eu plentyn’.

# Sut mae ysgolion yn cynnwys rhieni mewn dysgu ar hyn o bryd?



Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

EAS

GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

PARTNERIAETH

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Cyfranogiad Rhieni v. Ymgysylltiad Rhieni

Janet Goodall , A Framework for Family Engagement: Going Beyond the Epstein Framework, 2022

| Cyfranogiad Rhieni yn yr Ysgol | Ymgysylltiad Rhieni â Dysgu |
|---|---|
| • Canolbwyntio ar yr ysgol<br>• Canolbwyntio ar ryngweithio rhieni â'r ysgol<br>• Mae gwefan yr ysgol yn glir ac yn hawdd i rieni ei deall a'i defnyddio<br>• Mae'r rhieni'n deall y tasgau gwaith cartref a osodwyd<br>• Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni<br>• Mae staff yn rhoi gwybod i rieni am ffocws y cwricwlwm<br>• Mae'r ysgol yn mynd ati i gael adborth gan rieni<br>• Mae'r ysgol yn cynnig gwybodaeth gynefino/pontio i rieni<br>• Mae nosweithiau rhieni yn canolbwyntio ar adrodd (ffocws adweithiol)<br>• Mae rhieni o'r farn bod helpu athrawon yn rhywbeth sy'n cefnogi'r ysgol | • Canolbwyntio ar ddysgu<br>• Canolbwyntio ar rieni'n rhyngweithio â'u plant<br>• Mae'r wefan yn cael ei diweddaru'n rheolaidd a'i chreu gyda mewnbwn rhieni<br>• Mae gwaith cartref yn rhyngweithiol, gyda chefnogaeth wedi'i chynllunio gan rieni.<br>• Mae'r cyfathrebu'n ddwy ffordd yn bennaf ac mae'n canolbwyntio ar ddysgu.<br>• Mae rhieni'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o benderfyniadau'r ysgol gan gynnwys syniadau am y cwricwlwm<br>• Gweithredir ar adborth rhieni ac mae'r rhieni'n ymwybodol o'r camau a gymerwyd<br>• Mae rhieni'n cyd-greu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cynefino a phontio<br>• Mae digwyddiadau i rieni ac athrawon yn canolbwyntio ar gefnogi dysgu (ffocws rhagweithiol)<br>• Mae rhieni'n cael eu hystyried yn bartneriaid yn y gwaith o gefnogi dysgu |

# Pam mae ymgysylltiad rhieni yn bwysig?

Boonk, Gijselaers et al. 2018 yn Goodall, A Framework for Family Engagement, 2022

Mae'n bosibl mai rhieni yw eich ffrindiau pennaf o ran helpu dysgwr i wneud cynnydd a ffynnu. Mae ymgysylltiad rhieni â dysgu:

- yn cael effaith gadarnhaol ar **gyflawniad academaidd** ac yn cynyddu **cymhelliant** pobl ifanc
- yn arwain at gyfraddau uwch o ddychwelyd **gwaith cartref**
- yn cynyddu eu **hunanhyder** a'u **hunan-barch**.
- yn arbennig o werthfawr wrth geisio **cau'r bwlch** cyflawniad rhwng plant o gefndiroedd gwahanol
- yn bwysig gan fod rhieni'n **haeddu cyfathrebu o safon**

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service
EAS
GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding
PARTNERIAETH
Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners
Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Rhwystrau i gyfranogiad rhieni

Janet Goodall , A Framework for Family Engagement: Going Beyond the Epstein Framework, 2022

Oriau gwaith hir neu anghymdeithasol

Iechyd corfforol neu feddyliol gwael / Anabledd

Ymrwymiadau gofal plant

Ymrwymiadau gofal plant

Diffyg trafnidiaeth

Profiad gwael y rhieni eu hunain o'r ysgol

Diffyg hyder (yn enwedig o ran dysgu gartref)

Diffyg trafnidiaeth

Teimladau o fygythiad neu ofni cael eich beirniadu

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

EAS

GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

PARTNERIAETH

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Sut gellir goresgyn y rhwystrau hyn?

Breakout Rooms

| | | |
|---|---|---|
| Oriau gwaith hir neu anghymdeithasol | Iechyd corfforol neu feddyliol gwael / Anabledd | Ymrwymiadau gofal plant |
| Ymrwymiadau gofal plant | Diffyg trafnidiaeth | Profiad gwael y rhieni eu hunain o'r ysgol |
| Diffyg hyder (yn enwedig o ran dysgu gartref) | Diffyg trafnidiaeth | Teimladau o fygythiad neu ofni cael eich beirniadu |

# Oriau gwaith hir neu anghymdeithasol

Cynigiwch fwy o hyblygrwydd gan gynnwys cyfarfod ar-lein neu dros y ffôn. Gofynnwch i'r rhieni pryd fyddai'n amser cyfleus i gwrdd.

# Iechyd corfforol neu feddyliol gwael / Anabledd

Cynigiwch fwy o hyblygrwydd gan gynnwys cyfarfod ar-lein neu yn y cartref.

# Ymrwymiadau gofal plant

Eglurwch i'r rhieni fod croeso iddynt ddod â brodyr a chwiorydd eu plentyn i'r lleoliad ar gyfer noson rhieni ac ati.

# Anawsterau iaith

Defnyddiwch iaith syml, hawdd ei deall. Osgowch jargon proffesiynol. Cyfieithwch ddeunyddiau hyrwyddo i ieithoedd perthnasol.

# Diffyg trafnidiaeth

Ystyriwch gwrdd â'r rhieni hyn mewn mannau mwy hygyrch e.e. canolfan gymunedol

# Profiad gwael y rhieni eu hunain o'r ysgol

Cynlluniwch gyfleoedd i rieni a staff ysgol ddod i adnabod ei gilydd mewn sefyllfaoedd cymdeithasol e.e. barbeciws. Ewch ati i feithrin perthynas o ymddiriedaeth. Sicrhewch fod staff yn cyfathrebu'r pethau cadarnhaol yn rheolaidd (galwadau ffôn/cardiau post ac ati)

# Diffyg hyder (yn enwedig o ran dysgu gartref)

Darparwch strategaethau ymarferol i gefnogi dysgu gartref. Cynigiwch sesiynau gwybodaeth i rieni neu beth am roi cyfleoedd i rieni ddysgu ochr yn ochr â'u plant neu gynnal digwyddiadau dysgwyr fel athrawon.

# Cost

Dysgwch beth sydd ei angen ar y gymuned rhieni gan yr ysgol a chreu cyfleoedd i ddarparu hyn. Er enghraifft, help i wneud cais am grant gwisg ysgol, clybiau brecwast, cyfnewid gwisg ysgol neu fanc bwyd. Cyfrifwch gost y diwrnod ysgol a byddwch yn ymwybodol o hyn wrth wneud penderfyniadau.

# Teimladau o fygythiad neu ofni cael eich beirniadu


Cynlluniwch gyfleoedd i rieni a staff ysgol ddod i adnabod ei gilydd mewn sefyllfaoedd cymdeithasol e.e. barbeciws. Osgowch jargon addysg. Sicrhewch fod rhieni'n teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn gyfforddus yn y lleoliad.

# Y Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF)

1. Critically review how you work with parents
2. Provide practical strategies to support learning at home
3. Tailor school communications to encourage positive dialogue about learning
4. Offer more sustained and intensive support where needed

Ymgysylltiad rhieni | EEF (educationendowmentfoundation.org.uk)

# Meithrin Perthynas â Theuluoedd




- Canolbwyntiwch ar fod **yn gadarnhaol, yn gynnes gan barchu eich gilydd**
- **Dywedwch wrth rieni fod eu plentyn yn bwysig** i chi
- Dangoswch eich bod yn **adnabod eu plentyn** fel unigolyn
- **Cydnabyddwch fod eich teuluoedd yn unigryw ac yn wahanol**, yn yr un modd ag yr ydych yn deall bod eich disgyblion yn wahanol, ac yn unigolion unigryw.
- **Dysgwch gymaint ag y gallwch chi am yr ysgol a chyd-destun y gymuned.** Weithiau pan fyddwn ni'n gweithio mewn ardal nad ydyn ni'n ei hadnabod yn dda, neu pan nad ydyn ni'n byw yn y dalgylch, rydyn ni'n colli hanes y gymuned o amgylch yr ysgol.
- **Ystyriwch rieni fel partneriaid gweithredol ym mhroses ddysgu eu plant** a'ch bod i gyd yn gweithio tuag at nod cyffredin

# Dysgu Gartref: Pa gyngor ymarferol fyddech chi'n ei roi i rieni?

EEF: Working with Parents to Support Children's Learning, 2018

| | |
|---|---|
| Y Blynyddoedd Cynnar | Canolbwyntiwch ar weithgareddau sy'n datblygu iaith lafar a hunan-reoleiddio |
| Cynradd Cynnar | Canolbwyntiwch ar weithgareddau sy'n targedu darllen (er enghraifft, sŵn llythrennau, darllen geiriau a sillafu) a rhifedd (fel dysgu rhifau neu ddysgu'r drefn cyfrif) |
| Cynradd Uwch | Canolbwyntiwch ar weithgareddau sy'n cefnogi darllen a deall drwy ddarllen llyfrau ar y cyd |
| Uwchradd | Wrth i blant fynd yn hŷn, mae anogaeth a diddordeb rhieni yn yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn bwysicach na chysylltiad uniongyrchol. Canolbwyntiwch ar ddarllen annibynnol a strategaethau sy'n cefnogi dysgu annibynnol |

2 Provide practical strategies to support learning at home

# Dysgu Gartref: Pa gyngor ymarferol fyddech chi'n ei roi i rieni?

EEF: Working with Parents to Support Children's Learning, 2018

## Y Blynyddoedd Cynnar

Canolbwyntiwch ar weithgareddau sy'n datblygu iaith lafar a hunan-reoleiddio

Enghreifftiau: canwch ganeuon a hwiangerddi gyda'ch gilydd i archwilio synau a phatrymau geiriau. Darllenwch straeon yn uchel i gefnogi plant i ddatblygu iaith a deall cysyniadau newydd.

# Dysgu Gartref: Pa gyngor ymarferol fyddech chi'n ei roi i rieni?

EEF: Working with Parents to Support Children's Learning, 2018

## Cynradd Cynnar

Canolbwyntiwch ar weithgareddau sy'n targedu darllen (er enghraifft, sŵn llythrennau, darllen geiriau a sillafu) a rhifedd (fel dysgu rhifau neu ddysgu'r drefn cyfrif)

Enghreifftiau: Cadwch lygad am lythrennau/rhifau yn eu hamgylchedd bob dydd neu gyfrif fel rhan o fywyd bob dydd fel cyfrif yr hosanau sy'n mynd i mewn i'r peiriant golchi. Cynigiwch sesiynau 'dysgu gyda fi' neu ddysgwyr fel athrawon.

# Dysgu Gartref: Pa gyngor ymarferol fyddech chi'n ei roi i rieni?

EEF: Working with Parents to Support Children's Learning, 2018

## Cynradd Uwch

Canolbwyntiwch ar weithgareddau sy'n cefnogi darllen a deall drwy ddarllen llyfrau ar y cyd

Enghreifftiau: Defnyddiwch oedi, ysgogi a chanmol wrth wrando ar eich plentyn yn darllen. Rhowch gwestiynau darllen a deall i rieni eu gofyn ar ôl i blentyn ddarllen gartref e.e. beth sydd wedi digwydd hyd yma? Beth oedd y rhan orau o'r stori? Beth wyt ti'n meddwl fydd yn digwydd nesaf?

# Dysgu Gartref: Pa gyngor ymarferol fyddech chi'n ei roi i rieni?

EEF: Working with Parents to Support Children's Learning, 2018

## Uwchradd

Wrth i blant fynd yn hŷn, mae anogaeth a diddordeb rhieni yn yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn bwysicach na chysylltiad uniongyrchol. Canolbwyntiwch ar ddarllen annibynnol a strategaethau sy'n cefnogi dysgu annibynnol.

Enghreifftiau: Helpwch rieni i ddeall ac annog arferion gwaith cartref da. Gall rhieni helpu eu plant i gynllunio a rheoli eu hamser, eu hymdrech a'u hemosiynau ac i reoli eu darllen eu hunain. Gallent hefyd eu hannog i ddarllen dros yr haf.

3 Tailor school communications to encourage positive dialogue about learning

# Cyfathrebu: Sut mae eich ysgol yn defnyddio rhai neu'r cyfan o'r rhain i gyfathrebu â rhieni?













ClassCharts

Seesaw

Google Classroom

# Ffonio'r cartref

Tom Bennett, Running the Room: The Teacher's Guide to Behaviour, 2020. tt. 284-285

*'Helo, Mrs Ryan? Mr Bennett sydd yma yn ffonio o'r ysgol. Mae William yn iawn. Tybed yw hwn yn amser cyfleus i sgwrsio am sut roedd e heddiw? Diolch'*

Mae hwn yn gyflwyniad cwrtais ac yn gydnabyddiaeth bod ei hamser yn werthfawr. Hefyd, mae'n rhoi sicrwydd hanfodol nad yw William wedi cael damwain nac wedi brifo.

*'Mae William wedi gwneud gwaith gwych yn fy ngwersi. Welsoch chi'r gwaith cartref wnaeth e wythnos diwethaf ar dariannau Rhufeinig? Mae'n gallu cynhyrchu gwaith ardderchog pan mae e eisiau gwneud.'*

Mae hon yn ffordd dda o ddangos bod William yn bwysig i chi. Rydych chi wedi dod o hyd i rywbeth sy'n gyffredin rhyngoch chi. Mae hyn yn helpu i feithrin perthynas.

*'Rwy'n ofni bod William wedi siomi ei hun ychydig heddiw. Ac mae angen eich help arna i i'w gael e nôl ar y trywydd iawn. Oes gennych chi bum munud i siarad am y peth?'*

Mae pobl yn llawer mwy tebygol o'ch cefnogi os gofynnwch iddynt eich helpu. Mae'n anoddach gwrthod pan fydd rhywun yn estyn allan mor amlwg.

# Nosweithiau Rhieni - Gair o gyngor

# Adrodd i Rieni

## Adroddiad A

Cafodd Harriet 78% yn yr asesiad diweddar sy'n golygu ei bod hi yn y 5 uchaf yn y dosbarth. Mae hi'n ddisgybl MAT yn y pwnc hwn ac wedi delio'n hyderus â chwestiynau tebyg i PISA. Y tymor hwn, mae hi wedi astudio rhif, geometreg a thebygolrwydd. Y tymor nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar ystadegau, cymhareb ac algebra. Dylai Harriet barhau i ymarfer ei Mathemateg yn annibynnol a dylai anelu at 85% neu uwch yn yr asesiad nesaf.

## Adroddiad B

Mae Alice yn ddysgwr cwrtais a brwdfrydig. Mae hi wedi dangos potensial gwirioneddol yn ei darllen dros y misoedd diwethaf ac mae ei hymdrech yn rhagorol. Mae hi'n ehangu ei geirfa ac yn darllen yn fwy cywir. Er mwyn gwneud cynnydd pellach, byddai'n elwa o ddarllen yn uchel gartref bob dydd i'w helpu i fagu mwy o hyder. Mae wedi bod yn bleser ei haddysgu a dymunaf bob llwyddiant iddi yn y flwyddyn academaidd newydd.

# Beth gellir ei wneud yn yr ysgol?

4 Offer more sustained and intensive support where needed

- Cydnabyddwch fod eich teuluoedd yn unigryw ac yn wahanol, yn yr un modd ag yr ydych yn deall bod eich disgyblion yn wahanol, ac yn unigolion unigryw.
- Siaradwch â rhieni am beth fyddai'n eu helpu i gefnogi dysgu – efallai y bydd angen cymorth wedi'i dargedu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac osgoi gwneud bylchau'n fwy.
- Ystyriwch gynnig ymweliadau â chartrefi plant iau sydd â mwy o anghenion. Gall hyn fod yn ddull effeithiol i rieni sy'n ei chael hi'n anodd mynychu cyfarfodydd, ac yn ffordd dda o feithrin perthnasoedd.

# Rheoli Llwyth Gwaith a Llesiant

- Byddwch yn glir ynghylch disgwyliadau'r ysgol o ran cyfathrebu â rhieni. Eglurwch y disgwyliadau hyn wrth rieni.
- Peidiwch â darllen nac ateb negeseuon e-bost y tu allan i'r diwrnod gwaith gan y bydd pobl yn dechrau dod i ddisgwyl hyn. Peidiwch â chael cyfrif e-bost yr ysgol ar eich ffôn.
- Byddwch yn hyderus i gynnwys aelodau eraill o staff yn ôl yr angen – Uwch Dîm Arwain, CADY ac ati. Cofiwch mai tîm ydych chi.

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

EAS

GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

PARTNERIAETH

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Gweithio'n Effeithiol gyda Chynorthwywyr Addysgu

- Yn eich barn chi, beth yw rôl Cynorthwyydd Addysgu yn yr ystafell ddosbarth?
- Sut ydych chi'n rhannu cynllunio a disgwyliadau gyda Chynorthwywyr Addysgu?
- Pa ymyriadau effeithiol ydych chi'n ymwybodol ohonynt sy'n cael eu cyflawni gan Gynorthwywyr Addysgu?

# Manteisio i’r eithaf ar effaith Cynorthwywyr Addysgu

Mewnosod dolen fideo

# Manteisio i'r eithaf ar effaith Cynorthwywyr Addysgu: Strategaethau a Thechnegau

Argymhellion EEF o ran Cynorthwywyr Addysgu

- **Argymhelliad 1** - Ni ddylid defnyddio Cynorthwywyr Addysgu fel adnodd addysgu anffurfiol ar gyfer disgyblion â chyrhaeddiad isel.
- **Argymhelliad 2** - Defnyddio Cynorthwywyr Addysgu i ychwanegu gwerth at yr hyn mae athrawon yn ei wneud, nid eu disodli.
- **Argymhelliad 3** - Defnyddio Cynorthwywyr Addysgu i helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol ac i reoli eu dysgu eu hunain
- **Argymhelliad 4** - Sicrhau bod Cynorthwywyr Addysgu yn gwbl barod ar gyfer eu rôl yn yr ystafell ddosbarth.

# Argymhelliad 2: Defnyddio Cynorthwywyr Addysgu i ychwanegu gwerth at yr hyn mae athrawon yn ei wneud

“Mae cefnu ar fodel lleoli lle mae Cynorthwywyr Addysgu yn cael eu neilltuo i ddisgyblion penodol am gyfnodau hir yn gofyn am ddulliau mwy strategol o drefnu ystafell ddosbarth, sy’n fwy seiliedig ar waith tîm rhwng yr athro a’r cynorthwyydd addysgu.”

- Cylchdroi
- Defnyddio Cynorthwywyr Addysgu i ddarparu yn y dosbarth cyfan
- Brysbennu addysgu
- Parodrwydd i ddysgu

# Hofrennydd yn erbyn Felcro

<u>Felcro</u> – yn sownd wrth un plentyn

X annog dibyniaeth

X creu rhwystr i QFT

X ynysu’r plentyn oddi wrth ei gyfoedion


<u>Hofrennydd</u> – hofran, helpu, symud i ffwrdd, cylchdroi ac yna ddychwelyd

*yn annog annibyniaeth

*gall Cynorthwywyr Addysgu helpu gwahanol grwpiau

*gall y plentyn weithio gyda chyfoedion

# Argymhelliad 3: Defnyddio Cynorthwywyr Addysgu i helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol ac i reoli eu dysgu eu hunain



# Argymhelliad 3: Defnyddio Cynorthwywyr Addysgu i helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol ac i reoli eu dysgu eu hunain

| Avoid | Encourage |
|---|---|
| x Prioritising task completion | ✓ Pupils to be comfortable taking risks with their learning |
| x Not allowing pupils enough thinking and response time | ✓ Providing the right amount of support at the right time |
| x 'Stereo-teaching' (repeating verbatim what the teacher says) | ✓ Pupils retaining responsibility for their learning |
| x High use of closed questions | ✓ Use of open ended questions |
| x Over-prompting and spoon-feeding | ✓ Giving the least amount of help first to support pupils' ownership of the task |

# Pwy yw ein partneriaid eraill ym maes dysgu?

- Llywodraethwyr
- Ysgolion Clwstwr a Sefydliadau Addysg Uwch (Pontio)
- Asiantaethau Allanol (SALT, Ed Psych ac ati)

Consortiwm Canolbarth y De / Central South Consortium — Gwasanaeth Addysg ar y Cyd / Joint Education Service; EAS; GwE — Cydweithio · Dysgu · Llwyddo / Collaborating · Learning · Succeeding; PARTNERIAETH; Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru / Mid Wales Education Partners; Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol / Regional School Improvement Consortia

# Cyfleoedd y Prosiect Ymholi Proffesiynol

Enghraifft: I ba raddau y mae cynnwys disgyblion a rhieni mewn dysgu yn cefnogi cynnydd disgyblion?

I weld yr enghraifft hon ac enghreifftiau eraill o Brosiect Ymholi Proffesiynol, ewch i Restr Chwarae Hwb:

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

EAS

GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

PARTNERIAETH

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Gwerthuso'r Sesiwn - Sesiwn 5

Welwn ni chi yn Sesiwn 6 sy'n canolbwyntio ar Arweinyddiaeth a Chydweithio ac sydd â chysylltiadau â Chynllunio'r Cwricwlwm

2024-2025 National Professional Learning for NQTs Evaluation